



Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Adam Cairns
Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardigan House
Ysbyty Athrofaol Cymru
Parc Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 4XW

10 Awst 2015

Annwyl Mr Cairns,

Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am roi ymateb terfynol i'm Hanghenion Gweithredu, sef ymateb yr wyf wedi cael cyfle i'w ddadansoddi bellach.

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae'ch ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae'n manylu ar gamau rydych chi wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflawni nifer o'r canlyniadau arfaethedig. Mae'n dda gen i eich bod wedi manylu ar y cyd-Gyfarwyddwyr arweiniol ar gyfer gwneud y gwaith hwn, a byddwn yn disgwyl i hyn gynnwys gweithdrefnau adolygu a chlориannu er mwyn rhoi sicrwydd ar lefel uchel yn eich sefydliad y bydd y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Mae'n dda gweld eich bod wedi ffurfio cysylltiadau â'ch cydweithwyr yn yr Awdurdodau Lleol er mwyn dechrau gweithio ar y cyd, ac rwy'n croesawu'r ffaith bod statws 'RAG' tryloyw wedi cael ei gynnwys gan fod hwnnw'n dangos yn agored sut mae'ch sefydliad yn clориannu ei gynnydd ynglŷn â phob Angen Gweithredu. Mae'ch ymateb yn dangos gwelliant ers yr adborth adeiladol a roddais yn gynharach eleni. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwasanaethau neu brosesau newydd sydd â'r potensial i symud ymlaen fel arferion gorau, er enghraifft, rhoi gwasanaeth ymataliaeth arbenigol newydd ar waith (Angen



Gweithredu 1.3) a phenodi Cynghorydd Gofal Dementia (Angen Gweithredu 3.4).

Gan hynny, rwy'n fodlon bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'm Hanghenion Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r newid angenrheidiol. Serch hynny, rhaid imi nodi bod pump maes o hyd lle mae angen rhagor o waith er mwyn rhoi sicrwydd imi y bydd y newid a'r gwelliant angenrheidiol yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae dadansoddiad manwl wedi'i atodi o'r wybodaeth ychwanegol a roesoch mewn ymateb i'm cais.

Fel y gwyddoch, o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb.

Fel y dywedais yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu ledled Cymru ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol am hyn ac am y camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd. Caiff y datganiadau hyn eu gwneud ar 11 Awst..

Rwy'n bwriadu cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis, pryd y byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau yr wyf yn disgwyl eu gweld wedi'u cyflawni'n gyson ar draws cartrefi gofal eich ardal. Yn nes ymlaen, byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyd a lled yr adolygiad a'r dull y byddaf yn ei ddefnyddio.

Er hynny, mae yna nifer o feysydd y bydd arna i angen diweddariad a sicrwydd yn eu cylch yn y cyfamser ac fe fyddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â'r rhain a sut y byddaf yn gofyn ichi wneud hyn.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yr ansawdd bywyd gorau posibl a'r safonau gofal uchaf.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Rwy'n falch fy mod i wedi llwyddo i roi adborth adeiladol i'r Bwrdd Iechyd er mwyn helpu ei ymateb i'r adroddiad ar fy Adolygiad i, 'Lle i'w Alw'n Gartref?'

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cysylltiadau â'i gydweithwyr yn yr Awdurdodau Lleol i ddechrau gweithio ar y cyd i ategu'r Adolygiad, a'i fod wrthi'n ystyried sut y gallai'r strwythurau ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg gael eu cysoni i hwyluso gwaith i fonitro a chomisiynu cartrefi gofal ar draws y rhanbarth cyfan. Yn olaf, peth cadarnhaol yw y bydd y Cyfarwyddwr Nyrso a Chyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn cymryd yr awenau gyda'i gilydd i sicrhau bod y cynllun gweithredu'n cael ei gyflawni. Byddwn yn disgwyl, wrth i'r rhaglen yma o waith ddatblygu, fe fydd cofnodi cyson yn digwydd trwy'r trefniadau hyn, neu sianel priodol arall, i'r Bwrdd Iechyd ac i'r cyhoedd.

Angen Gweithredu 1.3

Casgliad Terfynol - Derbyniol

1.3 Dylai cefnogaeth ymataliaeth arbenigol fod ar gael i bob cartref gofal er mwyn cefnogi arferion gorau o ran gofal ymataliaeth, a hynny'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol eglur o ran defnyddio cymhorthion ymataliaeth ac urddas.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i wella gwasanaethau ymataliaeth drwy ymrwymiad i roi Gwasanaeth Ymataliaeth Arbenigol newydd ar waith, gan gynnwys darparu hyfforddiant, asesiadau ac archwiliadau o'r canlyniadau i gleifion. Rwy'n croesawu'r ffaith bod gan yr ymrwymiad hwn, a'r camau ynddo, y potensial i roi gwell cymorth i bobl hŷn i barhau eu gallu i ymatal ac i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol.

Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn, sef nad oedd dadansoddiad o ansawdd ac argaeledd cymorth arbenigol ac effaith hynny ar brofiadau pobl hŷn. Mae'n dda gen i fod y Bwrdd

lechyd wedi ymateb i'r pryder hwn yn uniongyrchol drwy roi sicrwydd y bydd y gwasanaeth newydd yn cynnwys defnyddio holiaduron ynghylch ansawdd bywyd a dulliau i gasglu profiadau'r cleifion.

Ar ben hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod rhaglen gloriannu wedi'i chynnwys yng nghynlluniau'r Bwrdd lechyd i fonitro effeithiolrwydd ac ansawdd y gwasanaeth a phrofiadau unigolion. Dylai eglurder y dull hwn, a'r ffaith bod arweinydd atebol wedi'i gynnwys, ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan y Bwrdd lechyd.

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Terfynol - Rhannol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae ymateb y Bwrdd lechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am ddarparu gwasanaethau cymorth yn y rhanbarth. Er enghraifft, mae gwybodaeth wedi'i rhoi am wasanaeth eiriolaeth arbenigol sydd ar gael i unigolion sydd ag anabledd dysgu, gwasanaeth cyswllt ynglŷn â rhyddhau sy'n rhoi cymorth a chyngor a threialon hefyd ar gyfer gwasanaeth tebyg o fewn gofal strôc, a phobl sy'n byw â cholled ar eu synhwyrâu.

Er hynny, nid yw'n glir o'r wybodaeth a roddwyd i ba raddau y mae'r gwasanaethau rhyddhau, cyfieithu a gwybodaeth hyn yn gallu rhoi eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn yn yr holl sefyllfaoedd a adlewyrchir yn yr Angen

Gweithredu. Heb gyfle i ddefnyddio eiriolaeth o'r fath, mae'r risg yn parhau y bydd pobl hŷn yn methu sicrhau eu hawliau, na sicrhau bod eu pryderon yn cael sylw.

Rwy'n croesawu'r ymrwymiad y bydd yr adolygiad blynyddol nesaf o drefniadau eiriolaeth yn cynnwys gofyniad bod rhaid darparu eiriolaeth ar gyfer unigolion lle mae cartref gofal yn mynd drwy anawsterau. Ar ben hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud ei fod eisoes wedi gwneud cyd-drefniadau â'r Awdurdodau Lleol i fonitro trefniadau eiriolaeth fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae gan y camau hyn y potensial i helpu pobl hŷn i sicrhau eu hawliau, sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu pryderon yn cael sylw mewn sefyllfaoedd lle y gallen nhw fod yn agored i niwed. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod yna grŵp bellach, a fforwm sydd wedi'i restru i fod yn atebol am gwblhau'r gwaith hwn.

Serch hynny, ac er gwaethaf y camau cadarnhaol hyn a llawer o wybodaeth am fathau o wasanaethau, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi darparu datganiad o'r sefyllfa o ran realiti mynediad i wasanaethau eiriolaeth yn y sefyllfaoedd penodol sydd wedi'u rhestru yn yr Angen Gweithredu, a does dim cyfeiriad o hyd at eiriolaeth heb ei chyfarwyddo.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Terfynol - Rhannol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn, sef na roddodd y Bwrdd Iechyd gyfeiriad at ba mor ddigonol yw'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer gofal amlddisgyblaeth arbenigol sydd wedi'i fwriadu i helpu adsefydlu, a realiti mynediad i'r gwasanaethau hyn i bobl hŷn unigol. Heb yr wybodaeth hon, does dim modd deall ble mae angen gwelliannau er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn cael cymorth llawn i gynyddu eu hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd i'r eithaf. Gan hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb y Bwrdd Iechyd yn dweud bod yna ddeialog bellach â'r darparwyr

ynghylch yr angen am gymorth arbenigol a pha mor ddigonol yw'r ddarpariaeth, a bod cyfres o gyfarfodydd wedi'u trefnu i ategu hyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dweud y bydd yna raglen, o fis Gorffennaf ymlaen, o waith i sicrhau'r Bwrdd Iechyd ynghylch tegwch y gwasanaethau gofal sylfaenol i bob cartref gofal. Mae hyn i'w groesawu, ac fe allai sicrhau nad yw pobl hŷn yn gweld amrywiadau mewn gofal adsefydlu amlddisgyblaeth oherwydd yr ardal benodol, neu'r cartref gofal penodol, y maen nhw'n byw ynddo. Serch hynny, ac er fy mod yn croesawu'r ffaith bod y gwaith hwn wedi dechrau, does dim rhagor o wybodaeth wedi'i roi o ran pryd y disgwylir i'r gwaith gael ei orffen.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod cais am arian wedi'i gyflwyno i ychwanegu at ddarpariaeth cymorth y Tîm Adnoddau Cymunedol amlddisgyblaeth. Er hynny, nid yw'n glir sut y caiff y ddarpariaeth ar gyfer y gofal hwn ei gwella os na fydd y cais am gyllid yn llwyddo. Nid yw'n glir o'r ymateb ychwaith sut yn union mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu gwella'r ddarpariaeth hon na sut ganlyniadau y mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl eu gweld o ganlyniad iddi.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi enwi llyncu a maethiad fel un maes allweddol i ganolbwyntio arno, ac rwy'n croesawu hyn yn gryf. Er hynny, byddwn yn disgwyl gweld gwybodaeth fanylach am amserlenni a chanlyniadau arfaethedig y gwaith hwn er mwyn monitro cynnydd y gwelliant yn y maes yn y tymor hir.

Angen Gweithredu 3.4

Casgliad Terfynol - Derbyniol

3.4 Datblygu cefnogaeth iechyd meddwl a lles arbenigol amlddisgyblaethol, mewngymorth ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a sicrhau ei fod ar gael, yn cynnwys:

- Asesu iechyd meddwl a lles pobl hŷn fel rhan o'u gofal cychwynnol ac asesu datblygiad eu cynllun cefnogaeth a chynllunio eu gofal parhaus.
- Cyngor a chefnogaeth i staff gofal ynghylch sut i ofalu'n effeithiol am bobl hŷn ag anghenion lles meddyliol ac iechyd meddyliol, yn cynnwys dementia, a phryd i atgyfeirio.
- Llwybrau atgyfeirio amlwg a meini prawf ar gyfer atgyfeirio.
- Mae'r holl breswylwyr sydd yn cymryd cyffuriau gwrthseicotig yn

cael eu monitro a'u hasesu ar gyfer y posibilrwydd o ddiddyfnu, ac mae adolygiadau yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau NICE.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb y Bwrdd Iechyd yn cynnwys nifer o gamau cadarnhaol a rhagweithiol y mae'n eu cymryd i wella cymorth arbenigol ar gyfer iechyd a llesiant meddyliol. Er enghraifft, rwy'n croesawu penodiad Cynghorydd Gofal Dementia i roi addysg a chyngor i staff cartrefi gofal, a'r ffaith y bydd seiciatrydd ymgynghorol yn ymuno â'r Tîm Cyswllt Cartrefi Gofal.

Dylai staff gofal gael gwell cyngor a chymorth ynghylch sut i ofalu'n effeithiol am bobl hŷn sydd ag anghenion o ran eu llesiant meddyliol a'u hiechyd meddyliol. Fe allai'r camau hyn sicrhau y bydd anghenion pobl hŷn o ran iechyd a llesiant meddyliol yn cael eu deall, eu nodi a'u hadlewyrchu yn y gofal sy'n cael ei roi. Fe allen nhw sicrhau hefyd fod pobl hŷn yn manteisio ar gymorth arbenigol sy'n eu galluogi i gynyddu eu hansawdd bywyd i'r eithaf.

Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn o ran sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn monitro digonolrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth. Gan hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr ymateb yn cynnwys cynlluniau i ymgorffori asesiadau a gwaith craffu parhaus yn y Grŵp Cartrefi Gofal Sicrwydd Ansawdd, ac y bydd amserlenni ar gyfer adolygu'n barhaus a chyflwyno prosiect peilot ynglŷn â meddyginiaethau gwrthseicotig yn cael eu pennu ym mis Awst 2015.

Er fy mod yn croesawu'r ffaith bod arweinydd atebol wedi'i nodi bellach i oruchwylio'r dasg o orffen y gwaith hwn, yn y tymor hirach byddwn yn disgwyl gweld rhagor o wybodaeth ynghylch pa bryd yr amcangyfrifir y caiff y camau hyn eu cwblhau.

Angen Gweithredu 3.5

Casgliad Terfynol – Derbyniol

3.5 Mae gwybodaeth yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ynghylch defnyddio cyffuriau gwrthseicotig yn unol â chanllawiau NICE a Thargedau Deallus ar Gyfer Dementia Llywodraeth Cymru.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 4.2

Casgliad Terfynol – Derbyniol

4.2 Mae cytundeb ffurfiol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu rhwng y cartref gofal a gwasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol yn seiliedig ar y Datganiad o Hawliau. Dylai hyn gynnwys:

- Llwybrau atgyfeirio, yn cynnwys mynediad agored
- Amseroedd aros
- Gwybodaeth am atgyfeirio a rhyddhau
- Cyngor a gwybodaeth i gefnogi gofal parhaus y person hŷn yn y cartref
- Mynediad i wasanaethau arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yn unol â'r Canllawiau Hanfodion Gofal.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 4.3

Casgliad Terfynol – Derbyniol

4.3 Darperir gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant pan fo'n briodol i staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn adnabod anghenion iechyd pobl hŷn yn ogystal â phryd a sut i atgyfeirio.

Mae nifer o ymrwymadau cadarnhaol wedi'u gwneud gan y Bwrdd Iechyd a chamau y bydd yn eu cymryd a ddylai alluogi'r Bwrdd Iechyd i greu cyfleoedd i staff cartrefi gofal gael gafael ar wybodaeth, cyngor a hyfforddiant, a ddylai eu helpu i ddeall anghenion iechyd pobl hŷn, a pha bryd a sut i gael gafael ar wasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau arbenigol.

Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu cymorth ariannol i'r staff ddilyn modiwl ar ofal lliniarol ym Mhrifysgol Caerdydd, mae yna gyfle agored i staff

cartrefi gofal ddefnyddio portffolio hyfforddi a datblygu'r Bwrdd Iechyd ac mae'r Bwrdd yn dweud ei fod yn bwriadu cyflwyno gwell hyfforddiant ar asesiadau maethiad a llyncu. Ar ben hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn dweud y bydd trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch sicrwydd hyfforddiant parhaus fel rhan o arferion comisiynu ar y cyd dros y flwyddyn sy'n dod.

Er fy mod yn croesawu'r camau cadarnhaol hyn, a'r ffaith bod arweinwyr atebol wedi'u cynnwys, mae'n rhaid imi nodi y byddai'r ymateb yn gryfach pe bai asesiad wedi'i gynnwys o sut mae portffolio hyfforddi a datblygu'r Bwrdd Iechyd yn cael ei gyrchu a'i ddefnyddio gan staff gofal, a pha effaith y mae hyn yn ei chreu ar anghenion a chanlyniadau iechyd unigolyn.

Angen Gweithredu 4.4

Casgliad Terfynol – Rhannol

4.4 Wrth gyrraedd cartref gofal, mae pobl hŷn yn derbyn adolygiadau o feddyginiaethau gan weithiwr proffesiynol clinigol gymwys, ac adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau'n cael eu cynnal yn unol â'r arferion gorau a gyhoeddwyd.

Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn, sef - er fy mod yn croesawu'r adolygiad o'r Gwasanaeth Estynedig Lleol er mwyn sicrhau bod adolygiadau meddyginiaethau ar gael yn deg ledled y rhanbarth - nad oedd yna amserlen ynglŷn â'r gwaith. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn uniongyrchol i'm pryder, drwy ddarparu amserlen glir ar gyfer gorffen y gwaith.

Ar ben hynny, rwy'n croesawu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i gynnwys fferyllwyr yn rhan o'r timau amlddisgyblaeth. Mae gan yr ymrwymadau hyn a'r camau perthynol y potensial i sicrhau bod pobl hŷn yn cael meddyginiaethau priodol, a bod y risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd nifer o feddyginiaethau yr un pryd yn cael eu deall a'u rheoli.

Er hynny, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi gwybodaeth am ddarpariaeth bresennol adolygiadau meddyginiaethau ar gyfer pobl hŷn yn unol â'r Angen Gweithredu, a'r effaith y gall y cyfle neu'r diffyg cyfle i gael adolygiad ei chreu i bobl hŷn. Does dim eglurhad ychwaith a fydd y camau arfaethedig sydd wedi'u

hamlinellu yn yr ymateb yn sicrhau bod unigolion yn cael adolygiad meddyginiaethau gan weithiwr proffesiynol â chymwysterau clinigol wrth gyrraedd cartref gofal, yn unol â'r amlinelliad yn yr Angen Gweithredu ai peidio.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Terfynol – Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Terfynol – Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn, sef nad oedd sôn yn benodol am wrando'n uniongyrchol ar leisiau pobl hŷn er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o ansawdd bywyd pobl hŷn. Heb wrando'n uniongyrchol ar bobl hŷn, bydd y risg yn parhau y bydd cyfleoedd i wneud newidiadau bach a all wneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd bywyd yn cael eu colli, ac y gallan nhw fynd yn arwyddocaol, gan greu effeithiau a throi'n gostus i'w datrys

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd yn cyfeirio at y ddeialog rhyngddyn nhw a'r Fforwm 50+ a rhanddeiliaid eraill, ac mae'n dweud hefyd y bydd yn ystyried sut i adeiladu ar waith cychwynnol i gyfathrebu â'r rhanddeiliaid. Er hynny, rwy'n siomedig nad oes rhagor o fanylion wedi'u rhoi am sut y caiff hyn ei wneud nac am amserlenni'r gwaith at y dyfodol.

Ar ben hynny, does dim gwybodaeth wedi'i rhoi am sut mae lleisiau a phrofiadau uniongyrchol pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael eu gwrando na sut mae camau'n cael eu cymryd ynglŷn â nhw, nid fel rhan o grŵp ffurfiol o randdeiliaid fel y Fforwm 50+, nac fel rhan o ymgynghoriad, ond fel rhan anffurfiol, barhaus o'r broses wella. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhai ymrwymadau i wella'r cyfathrebu â'r rhanddeiliaid, mae'n siomedig nad yw wedi dangos yn glir sut y gall gwrando'n wirioneddol ar leisiau a phrofiadau pobl hŷn wella'r ddealltwriaeth o ansawdd bywyd a chyflawni ansawdd bywyd.

Angen Gweithredu 6.8

Casgliad Terfynol – Derbyniol

6.8 Mae Byrddau Iechyd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn eu Datganiadau Ansawdd Blynyddol:

- defnydd amhriodol o gyffuriau gwrthseicotig
- mynediad i gefnogaeth iechyd meddwl a lles
- mynediad i atal cwympiadau
- mynediad i wasanaethau ail-alluogi
- cefnogaeth i gynnal golwg a chlyw

Datblygu meysydd eraill sydd i'w cynnwys fel rhan o ganllawiau DAB a gyhoeddir yn flynyddol.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn cynnwys ymrwymiad i geisio cynnwys cyfeiriad at y materion sydd wedi'u rhestru yn yr Angen Gweithredu yn ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2015-16. Fe ddylai hyn sicrhau bod gan bobl hŷn gyfle i sicrhau gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon am yr ansawdd bywyd sy'n cael ei darparu gan gartrefi gofal, a bod pawb yn fwy agored a thryloyw ynghylch ansawdd cartrefi gofal ledled Cymru.

Rwy'n cydnabod ac yn croesawu'r ffaith bod yr ymateb yn ymrwymo i wneud gwaith ychwanegol i sicrhau gwaith monitro priodol ym mhob maes i sicrhau y cydymffurfir â'r Angen Gweithredu hwn. Mae'r ymateb yn nodi unigolyn a fydd yn atebol am y gwaith hwn.

Angen Gweithredu 7.3

Casgliad Terfynol – Rhannol

7.3 Mae'r GIG yn gweithio â'r sector cartrefi gofal er mwyn ei ddatblygu fel rhan allweddol o'r llwybr gyrfa nyrsio, yn cynnwys darparu cefnogaeth datblygu proffesiynol a chymheiriaid llawn i nyrsys sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn cynnwys nifer o ddatblygiadau sydd â'r potensial i wella gwaith yn y sector cartrefi gofal fel rhan o lwybr gyrfa nyrsys, er enghraifft bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu perthnasoedd cymorth cymheiriaid cryfach drwy Fforymau'r Metronau a Gweithdai ar y cyd. Rwy'n croesawu hefyd yr ymrwymiad i gynnwys sicrwydd ynglŷn ag ail-ddilysu nyrsys fel rhan o drefniadau comisiynu ar draws yr holl bartneriaid.

Er hynny, siom yw nodi nad yw'r ymateb yn rhoi digon o wybodaeth imi fod yn hyderus y bydd y newidiadau sydd wedi'u datgan yn creu digon o effaith ar lwybr gyrfa nyrsys. Er enghraifft, does dim gwybodaeth wedi'i rhoi am yr hyn y

mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud i annog dechreuwyr newydd i ddod i'r sector, nac unrhyw ymdrechion rhagweithiol i wella'u dealltwriaeth o pam nad yw'r sector yn cael ei weld o bosibl fel opsiwn deniadol ar hyn o bryd. Gan hynny, mae'n bosibl bod yna risg barhaus na fydd nifer ddigonol o nyrsys arbenigol i sicrhau gofal nyrsio o safon a chanlyniadau ansawdd bywyd i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio ledled Cymru.